Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Adeiladau bron di-ynni (WGC 002/2021)

Y dyddiad pan fydd yn rhaid i adeiladau newydd fod bron yn ddi-ynni a'r safonau y mae'n rhaid iddynt eu bodloni.

Cyhoeddwyd gyntaf: 25 Chwefror 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 25 Chwefror 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/adeiladau-bron-di-ynni-wgc-0022021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Cylchlythyr reoliadau adeiladu

Cyflwyniad

Cwmpas

Rheoliad 25B

Cydymffurfio â Rheoliad 25B

Ymholiadau

Mae'r cylchlythyr hwn yn egluro sut mae'n rhaid i adeiladau newydd fodloni Rheoliad 25B o Reoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd).

Cylchlythyr reoliadau adeiladu

Rhif y Cylchlythyr:	WGC 002/ 2021	**Dyddiad cyhoeddi:**	25/02/2021
Statws:		Er gwybodaeth	
Teitl:		Gofynion adeiladau bron di-ynni ar gyfer adeiladau newydd	
Cyhoeddwyd gan:		Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu	

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/adeiladau-bron-di-ynni-wgc-0022021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyfeiriwyd at:	**Anfonwch ymlaen at:**
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol Cyngor y Diwydiant Adeiladu Fforwm Personau Cymwys	Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol Aelodau'r Senedd

Crynodeb:

Mae hwn yn gylchlythyr sy'n egluro'r broses o weithredu'r gofynion ar gyfer adeiladau newydd er mwyn bodloni Rheoliad 25B o Reoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd), sy'n nodi y dylai pob adeilad newydd fod yn adeilad bron di-ynni o 31 Rhagfyr 2020.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Paul Keepins

Rheoliadau Adeiladu

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8646

E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Gwefan: https://llyw.cymru/adeiladu-a-chynllunio

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/adeiladau-bron-di-ynni-wgc-0022021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyflwyniad

Bwriad y llythyr hwn yw egluro'r broses o weithredu gofynion adeiladau bron di-ynni ar gyfer adeiladau newydd, mewn perthynas â Rheoliad 25B o Reoliadau Adeiladu 2010 (ac eithrio adeiladau newydd o dan berchnogaeth a meddiant awdurdodau cyhoeddus, yr oedd yn ofynnol iddynt fod yn adeiladau bron di-ynni o 1 Ionawr 2019. Cafodd y broses o weithredu'r gofynion ar gyfer yr adeiladau hyn ei hamlinellu mewn cylchlythyr blaenorol).

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu'r canllawiau ar gyfer adeiladau newydd, y mae'n ofynnol iddynt fodloni Rheoliad 25B o 31 Rhagfyr 2020.

Cwmpas

Mae'r canllawiau yn y Cylchlythyr hwn yn berthnasol i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru, ac eithrio adeiladau o dan berchnogaeth a meddiant awdurdodau cyhoeddus.

Rheoliad 25B

Mae Rheoliad 25B yn datgan: 'Pan fydd adeilad yn cael ei godi, mae'n rhaid iddo fod yn adeilad bron di-ynni'.'

Ar gyfer adeiladau newydd o dan berchnogaeth a meddiant awdurdodau cyhoeddus, y dyddiad ar gyfer Rheoliad 25B yn dod i rym yw 1 Ionawr 2019.

Ar gyfer pob adeilad newydd arall, y dyddiad ar gyfer Rheoliad 25B yn dod i rym yw 31 Rhagfyr 2020.

Cydymffurfio â Rheoliad 25B

Gellir cyrraedd y lefel ofynnol o gydymffurfio â'r gofyniad hwn trwy fodloni Targed y Gyfradd Allyriadau sy'n ofynnol o dan Reoliad 26, ac yn ychwanegol ar gyfer adeiladau nad ydynt yn adeiladau domestig, y Gyfradd Defnyddio Ynni Sylfaenol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/adeiladau-bron-di-ynni-wgc-0022021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

o dan Reoliad 26A.

Dylai'r rhai sy'n cynnal y gwaith hwn hefyd ddadansoddi ymarferoldeb technegol, amgylcheddol ac economaidd defnyddio systemau amgen effeithlonrwydd uchel, sy'n cynnwys systemau cyflenwi ynni wedi'u datganoli, yn seiliedig ar ynni o ffynonellau adnewyddadwy, ac ystyried hyn fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad 25A.

Nodwch fod safonau'r Rheoliadau Adeiladau o ran effeithlonrwydd ynni yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Rydym wedi ymgynghori ynghylch gwelliannau dros dro sylweddol i'r safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi newydd fel cam cyntaf tuag at safon Rhan L 2025. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

Adolygiad o Ran L a Rhan F o'r Rheoliadau Adeiladu – Cam 2A

Adolygiad Rhan L o reoliadau adeiladu

Ymholiadau

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at:

Francois Samuel, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Ffôn: 03000 628232.

E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**

Yn gywir,

Francois Samuel

Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/adeiladau-bron-di-ynni-wgc-0022021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Adeiladau bron di-ynni (WGC 002/2021)** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/adeiladau-bron-di-ynni-wgc-0022021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/adeiladau-bron-di-ynni-wgc-0022021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.